

# Crynodeb Gwirio Ansawdd Canolfan Ddeintyddol Cwmdulais Dyddiad y gweithgarwch: 14 Rhagfyr 2021

Dyddiad cyhoeddi: 20 Ionawr 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)

Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ganolfan Ddeintyddol Cwmdulais fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r practis yn cynnig ystod o driniaethau GIG a rhai preifat ac yn cyflogi dau ddeintydd, orthodontydd arbenigol<sup>1</sup> a phedair nyrs ddeintyddol, yn ogystal â rheolwr practis / derbynnydd.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn giplun o'r safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio'r trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, a'n galluogi i ddarparu cyngor cyflym a chefnogol ar welliannau er mwyn gweithredu gwasanaethau yn ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig<sup>2</sup> a rheolwr y practis ar 14 Rhagfyr 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llwybrau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau y cynhelir safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut ydych yn sicrhau y gall yr holl gleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel?
- Sut ydych yn diwallu anghenion cleifion Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19?
- Sut ydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau'n cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

---

<sup>1</sup> Mae orthodontydd yn ddeintydd sydd wedi ymgymryd â hyfforddiant arbenigol ychwanegol er mwyn trin afreoleidd-dra yn y dannedd a'r ên.

<sup>2</sup> Ystyr "rheolwr cofrestredig" yw unigolyn sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat.

## Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi cynllunio a rheoli'r amgylchedd gofal i sicrhau ei fod mor ddiogel â phosibl i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys yr asesiadau risg / archwiliadau amgylcheddol mwyaf diweddar. Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

### Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Darparodd y rheolwr cofrestredig fanylion am y newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i amgylchedd y practis a oedd yn caniatáu i gleifion gael eu gweld yn ystod y pandemig COVID-19. Er mwyn amddiffyn cleifion a staff, dywedwyd wrthym fod y drws i'r practis yn cael ei gadw wedi'i gloi, gan sicrhau mai dim ond yr unigolion hynny sydd ag apwyntiadau wedi'u trefnu ymlaen llaw y gallai fynd i mewn i'r practis. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod arwydd ar ddrws y practis yn hysbysu cleifion o'r mesurau ychwanegol a oedd mewn grym i amddiffyn yn erbyn COVID-19. Gofynnwyd i gleifion fynychu gan wisgo gorchudd wyneb a byddai gofyn iddynt ddefnyddio hylif diheintio dwylo wrth ddod i mewn i'r practis.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi gosod sgriniau plastig clir ar ddesg y dderbynfa i amddiffyn staff ac roedd sticer wedi'i osod ar flaen desg y dderbynfa yn atgoffa cleifion i gadw pellter cymdeithasol. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y gwardwyd â theganau a chylchgronau o'r ardal aros. Dywedwyd wrthym fod staff hefyd yn annog cleifion i beidio defnyddio'r gofod hwn. Yn hytrach, byddai cleifion ond yn cael mynd i mewn i'r practis pan fyddent yn gallu mynd yn syth drwodd i'r ystafelloedd triniaeth.

Gofynnem pa fesurau oedd mewn grym i gadw cleifion yn hysbys o'r mesurau diogelwch sy'n ymwneud â COVID-19, cyn iddynt fynychu'r practis. Dywedwyd wrthym y byddai staff yn ffonio cleifion cyn eu hapwyntiad ac yn egluro'r gweithdrefnau i'w dilyn. Roedd hyn yn caniatáu'r claf i ofyn cwestiynau, pe bai'n ansicr, cyn cyrraedd y practis. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y wybodaeth hon yn cael ei hanfon yn electronig hefyd i gleifion a oedd â chyfeiriad e-bost. Roedd posteri yn cael eu harddangos drwy gydol y practis hefyd i atgoffa cleifion o'r mesurau ychwanegol a oedd mewn grym a'r hyn a ddisgwylir ohonynt.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym am y cyfleusterau i sicrhau hygyrchedd i'r practis ar gyfer y rhai ag anableddau. Cawsom wybod bod system dolen glyw<sup>3</sup> i gynorthwyo'r cleifion hynny a allai fod yn drwm eu clyw. Yn ogystal, roedd gan y practis ddefnydd o wasanaeth cyfieithu dros y ffôn a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer cleifion lle nad Saesneg

---

<sup>3</sup> Mae **dolen glyw** (a elwir yn ddolen sain o dro i dro) yn fath arbennig o system sain i'w defnyddio gan bobl sy'n defnyddio cymhorthion clyw.

---

oedd eu hiaith gyntaf. Cawsom hefyd wybod gan y rheolwr cofrestredig ei bod yn rhugl mewn pedair iaith wahanol. Ar gyfer y cleifion hynny yr oedd cael mynediad yn anodd iddynt, roedd gan y ddeintyddfa ystafell driniaeth i lawr y grisiau a thoiled hygyrch. Roedd drysau a choridorau hefyd wedi cael eu hehangu i hwyluso hygyrchedd ar gyfer cleifion mewn cadeiriau olwyn. Dywedwyd wrthym fod y practis wedi prynu'r tir gyferbyn â'r practis, y gellid ei ddefnyddio ar gyfer maes parcio i gleifion.

Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael eu hannog i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd gan y practis aelod o staff a oedd yn siarad Cymraeg ac roedd yr holl wybodaeth ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg.

Gwelsom dystiolaeth o asesiadau risg ar gyfer pob maes ymarfer. Roedd y dogfennau hyn yn rhestru risgiau, mesurau rheoli a rhagofalon amrywiol a oedd ar waith i liniaru'r risgiau a amlygwyd ac roeddent yn arddangos amgylchedd ymarfer diogel.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel. |

Ymhlith y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym roedd:

- Copi o archwiliad dihalogi Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 mwyaf diweddar a'r cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella
- Polisiâu rheoli heintiau cyffredinol a pholisiâu penodol ynghylch COVID-19
- Amserlenni glanhau

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod prosesau ar waith i ddiogelu cleifion a staff yn ystod gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau.<sup>4</sup> Roedd y broses hon yn dilyn y canllawiau diweddaraf a gyhoeddwyd gan Brif Swyddog Deintyddol Cymru. Hysbyswyd yr holl staff ynghylch y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Prif Swyddog Deintyddol a pholisiâu a gweithdrefnau cysylltiedig y practis drwy gyfarfodydd staff rheolaidd. Anogwyd staff nad oedd yn y gwaith pan oedd cyfarfodydd staff i ymuno drwy alwad fideo. Roedd y practis hefyd yn defnyddio ap negeseuon ffôn symudol i gadw staff yn gyfredol ar newidiadau i ganllawiau.

---

<sup>4</sup> Mae gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau yn weithdrefn feddygol a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr aer (aerosolau) o'r system anadlu wrth drin rhywun yr amheuir ei fod, neu ei bod yn hysbys ei fod, yn dioddef o gyfrwng heintus a drosglwyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy'r aer neu drwy ddefnyddio.

---

Dyweddod y rheolwr cofrestredig wrthym ei bod wedi dyrannu ystafelloedd triniaeth penodol i ddarparu gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosolau ac nad ydynt yn cynhyrchu aerosolau. Gwelsom dystiolaeth a ddarparwyd yng ngweithdrefn weithredu safonol y practis y byddai sugno cyfaint uchel<sup>5</sup> a llen rwber<sup>6</sup> yn cael eu defnyddio lle bo'n bosibl yn ystod gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau i leihau'r risg o ronynnau yn yr aer (aerosolau).<sup>7</sup> Dywedwyd wrthym fod ystafelloedd triniaeth wedi cael eu clirio o'r holl offer dianghenraid ac y byddai unrhyw ddeunyddiau nad oedd eu hangen ar gyfer triniaeth benodol yn aros mewn droriau na fyddai'n cael eu hagor. Dywedwyd wrthym fod cyfrifiaduron wedi cael eu tynnu o'r ardaloedd triniaeth ac y byddai clinigwyr yn teipio eu nodiadau ar y pryd mewn ystafell driniaeth dros ben.

Dyweddwyd wrthym fod unedau hidlo aer a phurwyr aer sefydlog wedi cael eu gosod yn yr ystafelloedd triniaeth, a oedd yn galluogi'r practis i weithredu gyda'r lleiafswm cyfnod segur<sup>8</sup> o ddeg munud yn dilyn gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau, a dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod yr holl staff wedi'u hyfforddi yn eu defnydd cywir. Yn ogystal, byddai ffenestri yn aros ar agor a rhoddwyd arwydd ar ddrws yr ystafell driniaeth yn cynghori staff bod gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau wedi digwydd ac i beidio â dod i mewn tan bod y cyfnod segur wedi gorffen.

Gwnaethom gadarnhau'r broses o wirio nad oedd cleifion a oedd yn ymweld â'r practis yn dangos symptomau COVID-19 gyda'r rheolwr cofrestredig. Fe'n hysbyswyd y byddai cleifion yn derbyn galwad ffôn cyn eu hapwyntiad ac y gofynnid cyfres o gwestiynau sgrinio ynglŷn â COVID-19 iddynt, yn ogystal â gofyn iddynt ddiweddarau a chadarnhau eu hanes meddygol. Byddai cleifion yna yn cael eu hailsginio wrth gyrraedd y practis. Byddai unrhyw glaf a adroddai ei fod yn arddangos symptomau COVID-19 yn cael ei annog i beidio mynychu. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod gan y practis weithdrefn weithredu safonol mewn grym fel y gellid gweld cleifion â symptomau COVID-19 yn ddiogel.

Dyweddod y rheolwr cofrestredig wrthym fod yr holl staff a oedd yn ymgymryd â gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosolau wedi cael prawf ffitio cywir ar gyfer masgiau FFP3<sup>9</sup> a'u bod yn gyfredol o ran hyfforddiant yn y defnydd o gyfarpar diogelu personol uwch, gan gynnwys y dull cywir o'i wisgo a'i ddiosg.<sup>10</sup> Cyflawnwyd hyn drwy fideos hyfforddi sydd ar gael ar-lein ac roedd yn cael ei atgyfnerthu ymhellach trwy roi posteri mewn lleoedd amlwg mewn ardaloedd gwisgo a diosg.

---

<sup>5</sup> Mae sugnedd cyfaint uchel yn ddyfais sugno sy'n tynnu cyfaint mawr o aer dros gyfnod o amser.

<sup>6</sup> Mae llen rwber neu len ddeintyddol yn llen denau o latecs neu ddeunydd heb latecs. Fe'i defnyddir i gadw dant ar wahân i weddill y geg yn ystod gweithdrefn ddeintyddol i wella llwyddiant gwaith atgyweirio i'r dannedd.

<sup>7</sup> Gall aerosolau deintyddol gludo feirysau a throsglwyddo heintiau.

<sup>8</sup> Cyfnod segur yw'r amser segur yn yr ystafell driniaeth ar ôl cynnal gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau sy'n caniatáu i unrhyw ddefnydd setlo cyn i'r broses lanhau a dihalogi gael ei chynnal.

<sup>9</sup> Nodwyd yr angen i wisgo masg FFP3 (amddiffyniad anadlol ar ffurf masg untro ar gyfer y geg a'r trwyn) trwy asesiad risg clinigol. Defnyddir y masg i amddiffyn rhag pathogenau a gludir yn anadlol. Er mwyn defnyddio'r masgiau hyn, rhaid i'r staff perthnasol gael prawf ffitio'r wyneb er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cael masg sy'n ffitio'r wyneb mewn ffordd addas a'i fod yn gweithredu i'r effeithlonrwydd gofynnol.

<sup>10</sup> Gwisgo - gwisgo cyfarpar diogelu personol; diosg - tynnu cyfarpar diogelu personol.

---

Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig ddisgrifio ei phrofiad o gyrchu cyfarpar diogelu personol yn ystod y pandemig. Cawsom wybod gan reolwr y practis y byddai gwiriad stoc yn cael ei gynnal ganddi bob wythnos. Dywedwyd wrthym nad oedd y practis wedi profi unrhyw anawsterau yn sicrhau bod ganddo gyflenwad digonol o eitemau cyfarpar diogelu personol a'i fod wedi cael ei gefnogi gan y Bwrdd Iechyd Lleol pan oedd angen.

Gwelsom dystiolaeth o bolisi COVID-19 cyfredol a oedd a fersiynau wedi'u rheoli, yn ddyddiedig, ac yn unol â chanllawiau cyfredol, yn ogystal â gweithdrefnau ysgrifenedig cyfredol ar gyfer atal COVID-19 a oedd yn unol â'r canllawiau presennol. Cawsom hefyd ddogfen polisi rheoli heintiau a oedd yn cwmpasu pob ardal, archwiliadau rheoli heintiau a oedd wedi'u cwblhau'n ddiweddar ac a oedd yn cydymffurfio â'r gofynion, a rhestrau gwirio dyddiol ar gyfer offer diheintio a sterileiddio. Cawsom hefyd amserlen lanhau ar gyfer yr holl ystafelloedd triniaeth a oedd yn ystyried y mesurau ychwanegol o ganlyniad i'r pandemig COVID-19.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, fe holodd AGIC gynrychiolwyr y gwasanaeth ynglŷn â'r ffordd maent wedi addasu eu gwasanaeth mewn ymateb i effaith COVID-19. Fe wnaethom archwilio a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod staff yn addas yn eu rolau ac a ydynt wedi'u hyfforddi'n briodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym roedd:

- Polisiâu/gweithdrefnau cydsyniad ar sail gwybodaeth
- Cynlluniau parhad busnes
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod o staff
- Aseidiadau risg a gymerwyd mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, yr amgylchedd, ac iechyd a diogelwch staff

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym na wnaeth y practis gau yn ystod y pandemig a pharhaodd i roi cymorth a chynghor i gleifion, pan fo angen, dros y ffôn. Roedd cleifion yr oedd angen meddyginiaeth ar bresgripsiwn yn unig arnynt yn gallu ei chael drwy ragnodi o bell. Dywedwyd wrthym y cafodd staff, ar ddechrau'r pandemig, eu rhannu'n "swigod", gyda phob swigen staff yn gweithio ar oriau penodol yn unig; roedd hyn yn helpu i gadw staff yn ddiogel a'r practis yn weithredol. Cawsom ein hysbysu gan y rheolwr cofrestredig am arferion da nodedig trwy ein hysbysu bod y practis, ar ddechrau'r pandemig, wedi defnyddio cymhwysiad negeseuon fideo er mwyn asesu cleifion dros alwad fideo.

---

Roedd rheolwr y practis yn uchel ei glod o'r staff, a dywedodd wrthym eu bod wedi gweithio'n galed i gefnogi ei gilydd, y practis a'r cleifion. Dywedwyd wrthym fod yr holl staff yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwr cofrestredig a rheolwr y practis a'u bod wedi cynnal asesiadau risg COVID-19 i sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel yn eu gwaith. Roedd staff dan gyfarwyddyd i gael prawf llif unffordd<sup>11</sup> ddwywaith yr wythnos a dywedwyd wrth unrhyw un a oedd yn dangos symptomau COVID-19 i hunanynysu a chael prawf adwaith cadwyn polymeras (PCR).<sup>12</sup>

Cawsom wybod bod gan y practis broses archwilio gadarn ar waith a chawsom enghraifft yn cwmpasu cadw cofnodion a chydymffurfedd COVID-19 a oedd yn arddangos canlyniadau da. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y prosesau archwilio wedi parhau, er gwaethaf y pandemig, a bod canlyniadau y rhain yn cael eu trafod gyda staff yn rheolaidd i sicrhau gwelliant parhaus.

Gwnaethom ofyn i reolwyr y practis ddisgrifio'r prosesau a gweithdrefnau a oedd yn sicrhau bod cyffuriau ac offer a ddefnyddir mewn argyfwng ar gael ac o fewn eu dyddiad. Dywedwyd wrthym fod y cyffuriau ac offer argyfwng yn cael eu gwirio a'u cofnodi bob wythnos gan ddau aelod penodol o staff. Roedd y rhan fwyaf o offer argyfwng wedi'u lleoli mewn ystafell a oedd gan bob aelod o staff fynediad ati mewn argyfwng. Roedd glwcagon<sup>13</sup> ar gyfer argyfwng wedi'i storio mewn oergell a oedd wedi'i neilltuo ar gyfer defnydd clinigol yn unig ac a oedd â thymheredd wedi'i reoli, ac roedd diffibriliwr y practis wedi'i storio tu ôl i'r dderbynfa.

### **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Fel rhan o'r broses gwirio ansawdd, cyflwynodd y rheolwr cofrestredig dystiolaeth o hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod o staff i AGIC. Ar adeg y gwiriad ansawdd, nid oedd llawer o'r staff yn cydymffurfio â gofynion ar gyfer hyfforddiant tân a hyfforddiant yn y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol).<sup>14</sup> Yn ogystal, roedd dystiolaeth yn nodi nad oedd rhai staff, yn ôl pob golwg, wedi cwblhau hyfforddiant cyfredol mewn cynnal bywyd sylfaenol neu mewn amddiffyn plant neu hyfforddiant mewn amddiffyn oedolion agored i niwed. Mae'n bwysig fod pob aelod o staff yn meddu ar ddealltwriaeth a sgiliau cyfredol mewn perthynas â'u cyfrifoldebau a rôl mewn lleoliad clinigol er mwyn amddiffyn cleifion a staff.

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff yn hollol gyfredol â'r gofynion hyfforddiant gorfodol a hysbysu AGIC pan fydd staff wedi cwblhau eu hyfforddiant gorfodol.

Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd i AGIC i gefnogi'r hyfforddiant gorfodol yn nodi ymhellach

---

<sup>11</sup> Mae prawf llif unffordd yn brawf a wneir gartref gan ddefnyddio swabiau o'r trwyn a/neu'r gwddf i ddangos yn gyflym p'un a yw COVID-19 yn bresennol. Bydd prawf positif yn gofyn i'r defnyddiwr gael prawf PCR a hunanynysu.

<sup>12</sup> Defnyddir prawf "adwaith cadwyn polymeras" ("PCR") i benderfynu p'un a yw unigolyn wedi'i heintio â'r feirws COVID-19.

<sup>13</sup> Cyffur brys yw "glwcagon" a roddir drwy bigiad mewngyhyrol mewn achos o hypoglycemia diabetig.

<sup>14</sup> Mae hyfforddiant yn Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 yn ymwneud â hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus staff gofal iechyd sy'n gyfrifol am dynnu lluniau a geir gan belydrau-X neu eu prosesu. Mae'r hyfforddiant hwn yn sicrhau bod staff yn gyfredol ag arferion gorau a chanllawiau sy'n ymwneud â'r defnydd o belydrau-X a/neu'r offer a ddefnyddir mewn lleoliad gofal iechyd.



---

nad oedd gan y rheolwr cofrestredig system effeithiol ar gyfer monitro cydymffurfedd staff â hyfforddiant gorfodol. Nid oedd system i fonitro'r gofynion o dan y cyfrifoldeb hwn chwaith, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Cafwyd tystiolaeth o hyn pan na chafodd y cais i ddarparu tystiolaeth bellach yn brydlon i ategu'r gofynion hyfforddiant gorfodol ar gyfer staff ei fodloni. Golygai hyn y gall staff fod yn gweithio heb wybodaeth gyfredol mewn meysydd allweddol mewn perthynas â'u rôl, gan arwain at y potensial am niwed i gleifion.

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig fod â system effeithiol ar waith i fonitro cydymffurfedd staff â hyfforddiant gorfodol. Mae hyn i sicrhau bod staff yn cynnal dealltwriaeth a sgiliau cyfredol mewn meysydd megis cynnal bywyd sylfaenol, ymwybyddiaeth tân, amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed, gofynion Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017, ac atal a rheoli heintiau.

Yn ystod y broses gwirio ansawdd, cawsom wybod bod rhai aelodau o staff y canfuwyd nad oeddent wedi cwblhau rhai meysydd o hyfforddiant gorfodol newydd gael eu penodi. Nododd y rheolwr cofrestredig ei bod yn credu bod yr aelodau staff hynny mewn gwirionedd wedi cwblhau elfennau o hyfforddiant gorfodol fel rhan o gyflogaeth flaenorol.

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod tystiolaeth foddhaol o unrhyw hyfforddiant staff blaenorol cyn cychwyn cyflogaeth yn y practis deintyddol. Mae'n rhaid unioni meysydd o ddiffyg cydymffurfio â hyfforddiant ar y cyfle cynharaf ac fel rhan o gyfnod sefydlu staff yn y practis.

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ofyn am dystiolaeth o'r archwiliad radiograffeg mwyaf diweddaraf a gwblhawyd gan y practis. Darparwyd hon i ni ar ddyddiad hwyrach yn dilyn cais gan yr arolygydd. Mae'n ofyniad o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 fod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal. Diben hyn yw sicrhau bod gweithredwyr offer radiograffeg a'r offer a ddefnyddir at y diben hwn yn bodloni meini prawf derbyniol ac er mwyn nodi unrhyw anghenion hyfforddiant neu waith cynnal a chadw offer sydd ei angen.

Ar ôl adolygiad o'r archwiliad radiograffeg a ddarparwyd, nodwyd nad oedd wedi cael ei ddyddio ac nad oedd yn cynnwys manylion y clinigydd/clinigwyr yr oedd yn destun yr archwiliad. Yn ogystal, nid oedd dyddiad wedi'i osod i ailadrodd yr archwiliad ac nid oedd casgliad neu gynllun gweithredu wedi'i nodi i annog gwelliant parhaus lle roedd ei angen. Mae hyn yn golygu ei bod yn bosibl na fydd anghenion hyfforddiant unigol yn cael eu nodi ac yn cael sylw mewn modd amserol ac mae'n bosibl na fydd archwiliad dilynol yn cael ei gwblhau mewn amserlen briodol.

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr archwiliad radiograffeg:

- Wedi'i ddyddio, ei asesu a'i ategu'n briodol gan gynllun gweithredu addas pan fo angen, er mwyn annog gwelliannau
- Yn cael ei ailadrodd yn rheolaidd fel y gorchmynnir gan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 ac yn gynharach os bydd canlyniadau'r archwiliad

---

yn nodi hyn

Fel rhan o'r gwiriad ansawdd, adolygodd AGIC y datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion a ddarparwyd gan y practis fel rhan o'r dystiolaeth y gofynnwyd amdani. Mae'r rhain yn ddogfennau wedi'u paratoi o dan Reoliad 5 a Rheoliad 6 yn y drefn honno o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 ac maent yn disgrifio'r modd y bydd y practis deintyddol preifat yn gweithredu. Bwriad y daflen wybodaeth i gleifion yw rhoi canllaw i gleifion am y practis ac mae'n cynnwys manylion am y triniaethau a ddarperir, gweithwyr deintyddol proffesiynol cofrestredig sy'n gweithio yn y practis, yn ogystal â'u cymwysterau, a manylion ar sut i roi adborth cadarnhaol neu sut i wneud cwyn i'r cyrff perthnasol pe byddai angen. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd rhywfaint o'r wybodaeth a gynhwysir yn y dogfennau hyn bellach yn gywir a bod angen ei diweddarau. Roedd hyn yn cynnwys y manylion anghywir ar gyfer ardal y Bwrdd Iechyd Lleol.

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion i gynnwys y manylion cywir ar gyfer ardal y Bwrdd Iechyd Lleol a darparu'r dogfennau hyn i AGIC unwaith y maent wedi'u diweddarau.

---

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Pan fydd angen cynllun gwella, dylai:

- Sicrhau bod y camau gweithredu a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol.
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad yn gyffredinol.
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun Gwella

Lleoliad: Canolfan Ddeintyddol Cwmdulais

Bwrdd iechyd: Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad y gweithgarwch: 14 Rhagfyr 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn eu cylch sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1	Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff yn hollol gyfredol â'r gofynion hyfforddiant gorfodol a hysbysu AGIC pan fydd staff wedi cwblhau eu hyfforddiant gorfodol.	Rheoliad 17 o (3)(a)(b) Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Bydd y rheolwr cofrestredig yn adolygu hyfforddiant staff bob tri mis. Bydd adroddiad cynhwysfawr a manwl yn cael ei gadw yn y practis. Gyda'r wybodaeth hon, bydd y practis yn gallu rhoi'r manylion diweddaraf i AGIC o ran hyfforddiant gorfodol.	Dr Carla Queiros	Uchafswm o dri mis
2	Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig fod â system effeithiol ar waith i fonitro cydymffurfedd staff â hyfforddiant gorfodol. Mae hyn i sicrhau bod staff yn	Rheoliad 17(1)(a) a Rheoliad 8(1)(i) o Reoliadau	Bydd adroddiad cynhwysfawr a manwl yn cael ei gadw yn y practis a'i adolygu bob 12 wythnos. Ein nod yw cwblhau'r holl hyfforddiant staff gorfodol yn llawn cyn gynted â phosibl ac mor effeithlon â	Dr Carla Queiros	Uchafswm o dri mis

	cynnal dealltwriaeth a sgiliau cyfredol mewn meysydd megis cynnal bywyd sylfaenol, ymwybyddiaeth tân, amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed, gofynion Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017, ac atal a rheoli heintiau.	Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	phosibl. Mae'n hanfodol fod yr holl staff yn gyfredol â'r hyfforddiant. Mae'r practis yn ymrwymedig i roi cymorth i'n holl staff.		
3	Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod tystiolaeth foddhaol o unrhyw hyfforddiant staff blaenorol yn cael ei gyrchu cyn cychwyn cyflogaeth yn y practis deintyddol. Mae'n rhaid unioni meysydd o ddiffyg cydymffurfio â hyfforddiant ar y cyfle cynharaf ac fel rhan o gyfnod sefydlu staff yn y practis.	Rheoliad 18 (2)(c) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae rhaglen gynefino fanwl newydd i staff wedi cael ei rhoi ar waith yn y practis, gan amlygu anghenion hyfforddiant. Fel practis, ein nod yw darparu cyflogeion newydd â chynllun hyfforddiant manwl os oes unrhyw fylchau yn eu datblygiad proffesiynol parhaus gorfodol.	Dr Carla Queiros	Yn syth
4	Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr archwiliad radiograffeg: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Wedi'i ddyddio, ei asesu a'i ategu'n briodol gan gynllun gweithredu addas pan fo angen, er mwyn annog gwelliannau</li> <li>• Yn cael ei ailadrodd yn rheolaidd fel y gorchmynnir gan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 ac yn</li> </ul>	Rheoliad 8 (1)(n) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Anfonwyd archwiliad radiograffeg at AGIC yn anghyflawn. Bydd yr archwiliad yn cael ei ailasesu a'i anfon drwodd gyda'r holl fanylion gorfodol a chynllun gweithredu addas wedi'i atodi.  Fel practis, bydd archwiliadau radiograffeg yn cael eu hailadrodd yn rheolaidd fel y nodwyd yng nghanllawiau Rheoliadau	Dr Carla Queiros	Cyn gynted â phosibl

	gynharach os bydd canlyniadau'r archwiliad yn nodi hyn		Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017. Bydd archwiliadau yn cael eu monitro'n agos a'u hailadrodd pe byddai'n angenrheidiol cyn yr amser a argymhellir.		
5	Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion i gynnwys y manylion cywir ar gyfer ardal y Bwrdd Iechyd Lleol a darparu'r dogfennau hyn i AGIC unwaith y maent wedi'u diweddarau.	Rheoliad 5 a Rheoliad 6 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae'r holl waith papur perthnasol wedi'i ddiweddarau.	Sue Morgan	Yn syth

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Enw: Dr  
Carla  
Queiros

Dyddiad:  
17 Ionawr 2022